

Date/Dyddiad: 17 Mai 2018

Ask for/Gofynwch am: Miss Charlotte Pugh

Telephone/Rhif ffon: (01446) 704662

Your Ref/Eich Cyf:

My Ref/Cyf: P/DC/CLP/2012/00937/S106

e-mail/e-bost: scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council  
Dock Office, Barry Docks, Barry CF63 4RT  
Tel: (01446) 700111

Cyngor Bro Morgannwg  
Swyddfa'r Doc, Dociau'r Barri, Y Barri CF63 4RT  
Ffôn: (01446) 700111

[www.valeofglamorgan.gov.uk](http://www.valeofglamorgan.gov.uk)



Annwyl Syr/Fadam

## Parthed: Cronfa Grant Cymunedau Cryf

Rwyf yn cysylltu i roi gwybod i chi am Gronfa Grant Cymunedau Cryf, sy'n rhoi grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddoli, Cyngorau Tref a Chymuned a Mentrau Cymdeithasol, i gyfrannu at gostau mentrau ym Mro Morgannwg sy'n helpu i gefnogi gweledigaeth y Cyngor o "gymunedau cryf â dyfodol llewyrchus".

Nod y gronfa yw:

- Gwella gwydnwch sefydliadau/grwpiau neu eu gweithgareddau drwy ariannu gweithgareddau sy'n ychwanegu gwerth at eu gwaith presennol a'u gwneud yn llai dibynnol ar arian grant yn y dyfodol.
- Cyfrannu arian hadau corn at fentrau a all ddangos eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hwy.
- Ymgymryd â gwaith ymgynghori, dichonoldeb, dylunio a gwaith arbenigol arall i ddatblygu cynigion ar gyfer gweithgarwch a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol.
- Talu am gostau cyfalaf cynlluniau drwy brynu cyfarpar, peiriannau, offer ac asedau eraill.
- Ymgymryd â gwaith er mwyn darparu gwasanaethau, er enghraifft, drwy gynyddu'r potensial ar gyfer cynhyrchu incwm.
- Cefnogi projectau bach ac arloesol.

Dechreuodd y Gronfa graidd â chyfanswm o £672,000 dros dair blynedd o 2017 tan fis Mawrth 2020. Nid oes terfynau isaf nac uchaf i'r grant, ond mae sicrhau gwerth am arian yn elfen allweddol o'r asesu a disgwylir i'r galw fod yn uchel.

## Bydd y Rhws yn elwa ar Adran 106

Yn ogystal â'r gronfa graidd, mae'r Cyngor wedi dyrannu £10,000 yn ychwanegol i'r gronfa yn ddiweddar, ar gyfer grwpiau yn y Rhws yn benodol. Derbyniodd y Cyngor yr arian hwn gan Taylor Wimpey Homes yn unol â Chytundeb Adran 106 (mewn cysylltiad â'r datblygiad yn Nhrem Echni, y Rhws - cyfeirnod 2012/00937/FUL), yn benodol er mwyn darparu/gwella Cyfleusterau Cymunedol yn y Rhws. Cyfeirir at yr arian yn aml fel "Arian Adran 106".

Y mwyaf y gall un cais ei dderbyn dan Adran 106 yw **£1,000**. Nid yw hyn yn eich rhwystro rhag gwneud cais am arian ychwanegol gan y Gronfa Grant Craidd.

Dyma'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig ag arian Adran 106. Mae Cytundeb Adran 106 yn datgan y gellir defnyddio'r arian fel a ganlyn: *"er mwyn darparu cyfleusterau (parc, adeilad neu strwythur) neu wasanaethau yn y Rhws, sy'n ateb anghenion lleol ac sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd, sy'n cynnwys naill ai darparu **cyfleusterau newydd yn ward ffiniol y Rhws neu wella un neu fwy o'r cyfleusterau presennol canlynol:***

- a) *Llyfrgell y Rhws*
- b) *Ysgol Gynradd y Rhws*
- c) *Neuadd Ceri Road, Pafiliwn a chyfleusterau cymunedol cysylltiedig*
- d) *Clwb Cymdeithasol y Rhws a'r Cyffiniau, Heol Fontygary*
- e) *Neuadd Gymunedol y Rhws, Heol Stewart*
- f) *Canolfan Gymunedol Parc Celtic a chyfleusterau cysylltiedig, Celtic Way;*
- g) *Clwb Hedfan y Rhws*
- h) *Clwb Achubwyr Bywydau y Rhws*
- i) *Parc Gwyliau a Hamdden a Phwll Nofio Fontygary."*

Gellir defnyddio arian Adran 106, felly, i ariannu "cyfleusterau newydd" yn y Rhws, neu i wella un o'r rhai a restrwyd uchod.

Mae'r Cyngor, felly, yn croesawu grwpiau yn ward y Rhws i ymgeisio am arian Adran 106 drwy Gronfa Grant Cymunedau Cryf. Y dyddiadau cau ar gyfer y ddwy rownd nesaf yw:

- 3 Awst 2018
- 2 Tachwedd 2018

I gael cyngor neu i sicrhau eich bod yn gymwys i dderbyn grant y rhaglen hon, cysylltwch â fi drwy ffonio'r rhif ffôn uchod. Rhaid i unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno cais gysylltu â Thîm Datblygu Economaidd y Cyngor a'r Swyddog Adran 106, Charlotte Pugh, er mwyn i ni asesu eich cymhwysedd cyn cychwyn. Bydd yr ymgeiswyr cymwys yn cael ffurflen gais am Grant Cymunedau Cryf i'w chwblhau a'i chyflwyno.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Miss Charlotte Pugh  
ar ran y Rheolwr Gweithredol Rheoli Datblygu